**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **11 RHAGFYR 2002** |
| **Lleoliad:** | |
| **Teitl:** | **YR YMDDIRIEDOLAETH DIOGELWCH TÂN CYMUNEDOL** |

**Diben**

1. Hysbysu'r pwyllgor am y sefyllfa ddiweddaraf o ran sefydlu'r Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol.

**Crynodeb**

2. O dan amodau Rheol Sefydlog 9.7, mae cyfrifoldeb ar bob un o'r pwyllgorau pwnc i gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad yn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol amdanynt ac i adolygu'n barhaus y gwariant a'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisïau. Mae'r Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol yn cysylltu ag agenda ehangach y Cynulliad ar gyfer diogelwch tân cymunedol a'i amcan yw codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân cymunedol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru a thri Gwasanaeth Tân Cymru.

**Y Cefndir**

3. Sefydlwyd y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol yn dilyn trafodaethau gyda chynrychiolwyr tri Gwasanaeth Tân Cymru ynghylch y nod cyffredin o sicrhau bod y Llywodraeth, sefydliadau cyhoeddus a chyrff o'r sector preifat yn cydweithio i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau sy'n gysylltiedig â thanau, a gwarchod eiddo domestig a chyhoeddus yng Nghymru. Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai adroddiad cyntaf y Grwp 'Wired for Safety' ym mis Tachwedd 2001.

4. Y Gwasanaeth Tân yng Nghymru a wnaeth awgrymu sefydlu’r Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol ac mae'r gwasanaeth yn gwbl gefnogol iddi. Mae'r Gweinidog wedi cytuno y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth ariannol i sefydlu'r Ymddiriedolaeth a chael ei chynrychioli ar y corff llywodraethu. Cylch gwaith cyffredinol yr Ymddiriedolaeth yw gwella ansawdd bywyd yng Nghymru trwy sicrhau gostyngiad yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan danau. Bydd yn mynd ati i wneud hyn mewn tair ffordd wahanol, ymgyrchoedd hysbysebu ac addysgu'r cyhoedd; gwneud ymchwil er mwyn magu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n achosi marwolaethau ac anafiadau; a grant sy'n cefnogi mentrau diogelwch tân lleol.

5. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd ac mae bellach wedi'i hymgorffori yn Nhy'r Cwmnïau. Hysbysebwyd swydd Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi ym mhapurau Grwp y Western Mail/Echo; Guardian Media Group; a'r Liverpool Daily Post. Derbyniodd Gwasanaeth Tân De Cymru (sy'n cydlynu'r broses recriwtio ar ran tri Gwasanaeth Tân Cymru a Llywodraeth y Cynulliad) 31 o geisiadau a lluniwyd rhestr fer yn dilyn proses ddidol gychwynnol. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 5 Tachwedd. Bydd enw'r ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf a'r bwriad yw y bydd y Prif Weithredwr yn dechrau ar ei swydd ddechrau mis Ionawr 2003.

6. Amcanion yr ymddiriedolaeth elusennol, fel a nodir o dan y Gyfraith Gwmnïau, yw hyrwyddo'r gwaith o addysgu'r cyhoedd am pob agwedd ar ddiogelwch tân ac atal tanau ac i ostwng, neu chwarae rhan mewn gostwng, nifer y marwolaethau neu anafiadau a achosir gan danau.

**Materion i'w Hystyried**

7. Cafwyd trafodaethau helaeth rhwng Prif Swyddogion Tân tair Brigâd Dân Cymru ar y cynllun i sefydlu Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol. Un o brif swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth fydd adeiladu ar argymhellion adroddiad Gweithgor y Cynulliad ar Ddiogelwch Tân Cymunedol 'Wired for Safety' a'r adroddiad ar danau bwriadol 'Up in Flames' ac, os yn briodol, eu rhoi ar waith.

8. Fel corff Cymru gyfan, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu yn ardaloedd tair Brigâd Dân Cymru ac, o'r herwydd, bydd yn fwy ymarferol yn economaidd nac unrhyw gyfuniad rhanbarthol posibl a cheir arbedion maint. Er bod gan y tair Brigâd Dân yng Nghymru strwythurau trefniadol gwahanol, mae mwy a mwy o angen iddynt gydweithio mewn ffordd strategol a swyddogaethol, ac mae'n debyg y bydd yr Ymddiriedolaeth yn fodd i hwyluso hynny.

9. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo agweddau ar ddiogelwch tân cymunedol ar ran y tair Brigâd Dân. Er bod yna wahaniaethau amlwg mewn rhai agweddau ar yr agenda diogelwch tân cymunedol ledled Cymru, mae yna lawer o agweddau tebyg ledled y wlad. At hynny, mae enghreifftiau eisoes o faterion sy'n ymwneud â diogelwch tân cymunedol sy’n cael eu gweithredu ar lefel Cymru gyfan, yn benodol llwyddiant y Cynulliad wrth lunio'i adroddiad 'Wired for Safety' a oedd yn edrych ar synwyryddion mwg trydan a thaenyddion dwr yn y cartref a'r gwaith a noddwyd gan y Cynulliad ym maes tanau bwriadol.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Amcangyfrifir mai £210,000 fydd cost sefydlu'r Ymddiriedolaeth yn 2002-03 a bydd hyn yn cynnwys costau swyddfa; costau cyflogau Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth a staff cymorth; costau hysbysebu; hyfforddi a datblygu; a phrynu cyfarpar.

## Cydymffurfio

11. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi sefydlu'r Ymddiriedolaeth o dan adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ac adran 5 o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965, o ran amcanion ymchwil yr Ymddiriedolaeth.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

12. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynlluniau ar gyfer sefydlu'r Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol a rhoi ei sylwadau arnynt.

## Y Gangen Adeiladu ac Ynni Domestig - Y Gyfarwyddiaeth Dai